

Trip Ysgol Sul

Bydd Trip Ysgol Sul Capel Coch yn cael ei gynnal yn gynnar ym mis Medi. Byddwn yn mynd i Tŷ Mawr Wybrnant ac unai'n cael picnic neu bryd o fwyd cyn dod adref.

Gwyliau Ysgol Sul

Bydd Ysgol Sul Capel Coch yn darfod am yr haf heddiw ac yn ailagor ym mis Medi.

Diolch

Dymuna Mrs Elisabeth Foster, 98 Pentre Helen, Deiniolen ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau a'i chymdogion am y blodau, cardiau, arian ac anrhegion, ac am yr ymweliadau a'r galwadau ffôn yn dilyn ei damwain ddiweddar ac yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri. Diolch i bawb.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Gorff. 9: Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr yn Ebeneser,

Y mis nesaf - Deiniolen

Gorffennaf 6

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gorffennaf 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

Gorffennaf 20

5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson

Gorffennaf 27

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Deiniolen am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Gorff. 13: Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch, ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Miss Nerys Jackson, Caernarfon..

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Gorff. 8: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch; a Phwyllgor y Gymdeithas Undebol tua 11.30 o'r gloch.

Dydd Mercher, Gorff. 9: Ffair Haf yn y festri am 2.30 o'r gloch.

Nos Fercher, Gorff. 9: Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr yn Ebeneser, Deiniolen am 7.00 o'r gloch.

Nos Iau, Gorff. 10: Cwpan CIC yn Abererch.

Nos Wener, Gorff. 11: Cwpan Efe yn Ysgol Gynradd Llanrug.

Dydd Sul, Gorff. 13: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog a chynhelir Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch. Ni fydd Ysgol Sul.

REHOBOTH

Dydd Sul, Gorff. 13: Oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Gorffennaf 6

10.00 a.m. - Mr Glyn Owen
5.00 p.m. - Mrs Glenys Jones

Gorffennaf 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Gorffennaf 20

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts
5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi

Gorffennaf 27

10.00 a.m. - Oedfa
5.00 p.m. - Dim Oedfa

1 ...



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 599 – Dydd Sul, 06 Gorffennaf, 2014

Cwmp

Gobeithio nad yw'r mis newydd hwn yn driw i'w enw ac mai 'gorffen haf' a welson ni yr wythnos ddiwethaf.

Ond beth bynnag am y tywydd, daeth yn ddiwedd ar yrfa a bywyd cyhoeddus y diddanwr a'r artist Rolf Harris yr wythnos ddiwethaf pan benderfynodd y rheithgor ar ddiwedd achos a barodd rai wythnosau ei fod yn euog o ymosod yn anweddus ar ferched ifanc. Ddydd Gwener, fe'i dedfrydwyd i garchar am bum mlynedd a naw mis. Am hanner can mlynedd bu'r Awstraliad dawnus yn wyneb a llais cyfarwydd. Arhosodd yn boblogaidd a llwyddiannus mewn maes sy'n rhoi sylw mawr i bobl am gyfnod byr cyn eu hanghofio'n llwyr. Ond bellach fe gollodd ei enw da, ac fe ddiflannodd y parch a'r edmygedd oedd gan bobl ato. Mae hyd yn oed ei ffrindiau gorau'n fud, ac yn methu â gwybod beth i'w ddweud.

Darllenais am un wraig sy'n berchen ar lun a wnaed ganddo a oedd yn ôl pob tebyg werth £50,000. Erbyn hyn, mae'n ystyried llosgi'r llun am nad yw o werth i neb ac am na all feddwl ei gadw yn ei thŷ. Am ryw reswm, mae acw o hyd hen record LP o ddiwedd y Chwedegau, 'The Best of Rolf Harris'. Mae acw hefyd lofnod y dyn a gafwyd yn fwy diweddar ar blatfform stesion Bangor. Go brin y gwnawn ninnau eu cadw bellach wedi i'r 'Worst of Rolf Harris' ddod i'r amlwg trwy'r achos llys a chyda dyfarniad y rheithgor. Mae'n rhyfedd meddwl mai tua'r adeg y cyflawnodd y troseddau cyntaf yr

ysgrifennwyd y geiriau canlynol ar glawr cefn y record: 'Mae'n berson cynnes a dyngarol, a chanddo afiaith at fyw. Y cymydog perffaith. Y math o ddyn y byddech yn falch o weld eich merch yn ei briodi.'

Mor amhriodol y geiriau hynny erbyn hyn, ond am hanner canrif gyfan fe lwyddodd Rolf Harris i guddio'r ochr arall, dywyll i'w gymeriad. Ers iddo gael ei ddyfarnu'n euog mae pob math o sefydliadau yn ngwledydd Prydain ac yn Awstralia wedi mynd ati i wared â lluniau a gwahanol greiriau sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'n hawdd deall pam bod hynny, yn arbennig pan fo troseddau o'r math y dyfarnwyd ef yn euog ohonynt yn cael eu cyfrif ymhlith y troseddau gwaethaf oll.

Ni all Rolf Harris feio neb ond ef ei hun am ei gwmp, ac ni ddylai synnu bod pobl mor awyddus i gefnu arno os yw'n euog o'r troseddau hyn. Ond wrth feddwl am y rhuthr cyhoeddus i dorri pob cyswllt ag ef, ni allaf lai na diolch am ras Duw yn yr Efengyl. Y mae ein pechodau ni, bawb ohonom, mor wrthun i Dduw (a gwaeth mewn gwirionedd) ag ydyw troseddau Rolf Harris i ni. Mae Duw yn ein cyfri'n euog ac yn deilwng o farn. Ac eto, yn ei drugaredd mae wedi trefnu ffordd i'r euog gael maddeuant ac i'r rhai a ddylai fod dan gondemniad gael eu gwneud yn blant iddo. Diolch o'r newydd am ffordd gyfreithlon i'r euog i hedd a ffafr gyda Duw.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Byddaf yn arwain yr oedfaon yn Neiniolen am 9.30 a 5.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Llanberis am 10.00 gan Mr Glyn Owen ac am 5.00 o'r gloch gan Mrs Glenys Jones, Pwllheli. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Dymuwn yn dda hefyd i bawb arall sydd heb fod mewn iechyd cystal ag arfer ar hyn o bryd.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yma yn Ebeneser, Deiniolen am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Gorffennaf 9. Bydd y Parchg Ronald Williams yn cyflwyno adroddiad am Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddiwedd yr wythnos ddiwethaf yma.

Mae croeso cynnes i bawb, yn arbennig aelodau Ebeneser. Dowch os gwelwch yn dda.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Annie Wilson-Evans, Plas Pengwaith, (Manod, Ffordd Capel Coch gynt) yn yr Amlosgfa ym Mangor echdoe, dydd Gwener, Gorffennaf 4 dan arweiniad y Gweinidog.

Cydymdeimlwn o'r newydd â'i theulu yn eu colled. Yn y gwasanaeth cafwyd cyfle i ddiolch i Dduw am ei bywyd ac am yr hyn a fu i'w theulu a'i chyfeillion dros y blynyddoedd. Diolchwn ninnau am ei ffyddlondeb i'r eglwys yn Capel Coch ac am y ffydd a'i cynhaliodd ar hyd y blynyddoedd a hyd ddiwedd ei bywyd ar y ddaear.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr Cledwyn Jones, 40 Afon Terrace, Llanberis a Bethan a'r holl deulu yn eu profedigaeth o gollu mab a brawd, Geraint, yn ystod yr wythnos. Boed i Dduw eich cynnal a'ch cysuro yn eich profedigaeth.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Gorffennaf 8 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Ffair Haf yr wythnos hon

Cynhelir Ffair Haf yn Festri Capel Coch am 2.30 bnawn Mercher, Gorffennaf 9.

Fel arfer, bydd yno stondinau cacennau, tuniau, teganau, llyfrau, a nwyddau amrywiol 'bron yn newydd'.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y stondinau, byddwn yn falch o'u derbyn.

Gwerthfawrogwn y gefnogaeth a geir i'r Ffair Haf bob blwyddyn.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir pwyllgor i drefnu rhaglen Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch ar ddiwedd y Bore Coffi ddydd Mawrth, Gorffennaf 8, tua 11.30 o'r gloch.

Cafwyd cyfarfod i drefnu tymor newydd y Gymdeithas yn Neiniolen ddydd Mawrth diwethaf. Diolch yn fawr iawn i Mrs Jane Thorman Jones a Mrs Eirian Jones, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd am gytuno i ddal ati am flwyddyn arall.

Ehangu'r Ofalaeth

Fel y nodwyd y ddau Sul diwethaf, bydd ffiniau'r Ofalaeth hon yn ymestyn o ddechrau'r flwyddyn nesaf i gynnwys dwy eglwys Annibynnol yn Nyffryn Ogwen, sef eglwysi Carmel, Llanllechid a Bethlehem, Talybont.

Cawn wneud y trefniadau angenrheidiol yn gynnar ym mis Medi. Yn amlwg bydd gofyn newid rhywfaint ar drefn f'odfaon i ar y Sul er mwyn i mi allu rhoi'r oedfaon angenrheidiol i'r ddwy eglwys. Bydd Deiniolen a Llanberis yn colli un o'm hoedfaon nos Sul y mis yr un. Bydd angen i ni drafod sut i ymateb i'r newid hwn, wrth gwrs.

Cwpan CIC

Nos Iau, Gorffennaf 10, bydd hogiau CIC Llanberis yn cymryd rhan yng Nghwpan CIC i'r oedran uwchradd yn Abererch.

Ceir rhagor o fanylion gan Andrew.

Cwpan Efe

Rydym wedi aildrefnu noson Cwpan Efe ar gyfer nos Wener nesaf, Gorffennaf 11 wedi iddi gael ei gohirio wythnos yn ôl.

Bydd y chwarae ar gae Ysgol Gynradd Llanrug rhwng 6.00 a 9.00 o'r gloch., ar gyfer plant oed cynradd, Blwyddyn 3-6.

Ceir cystadleuaeth Pêl-droed 5-yr-ochr a Phêl rwyd ar gyfer plant yr oed hwn.

Coffad

Ddydd Sadwrn, Mehefin 28, bu farw Mrs Nan Roberts yn 95 mlwydd oed, wedi gwaeledd byr.

I ni yng Nghefnywaun, Nan Glanffrwd oedd hi, yn ferch ieuengaf i'r Parchg a Mrs R O Williams. Daeth yma gyda'i theulu yn 1926, yn ferch fach. Yma y derbyniwyd hi yn gyflawn aelod, ac yma tua 1940 y priododd â'r Parchg Bryn Roberts. Cawsant bedwar o blant, Mair, Gwilym, Olwen ac Ifan. Bu'r Parchg Bryn Roberts yn weinidog mewn amryw o eglwysi, yn cynnwys Brynrefail. Cawsom wasanaeth un o'i wyrion, Aled Ifan, yn yr oedfaon yn Neiniolen ar fwy nag un achlysur y blynyddoedd diwethaf yma.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i'r plant ac i'r wyrion, ac yn arbennig i'w chwaer, Mrs Amy Edwards, sydd bellach yn byw yng Nghartref Gwynfa yng Nghaernarfon. Melys y cof am Nan.

(Diolch i Mrs Margaret Cynfi Griffith am y nodyn hwn.)